**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi ac Isadeiledd

**Ystafell Bwyllgor 5 – Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 13 Rhagfyr 2018 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| P Downing | P R Hood-Williams | O G James |
| M A Langstone | W G Lewis | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Uwch-gyfreithiwr |
| Phil Homes | Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Lisa Wells | Rheolwr Canol y Ddinas |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: P Lloyd a P M Matthews

---

## 40. Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd V M Evans – Personol - Cofnod Rhif 43 - Strategaeth Trafnidiaeth - wedi'i gyflogi am dâl gan GWR fel a grybwyllwyd yng Nghofnod Rhif. 43.

## 41 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2018 fel cofnod cywir.

## 42 Astudiaeth Dichonoldeb Stryd y Gwynt

Cyflwynodd Rheolwr Canol y Ddinas Astudiaeth Dichonoldeb ddrafft Stryd y Gwynt.

Nododd yr aelodau fod yr adroddiad wedi'i gomisiynu ar y cyd rhwng y cyngor a'r Rhanbarth Gwella Busnes.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 36 o dudalennau, gan gynnwys y cynllun busnes a'r wybodaeth dechnegol.

Nodwyd nad yw'r rhagair wedi'i amlinellu eto. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r Arweinydd/Aelod y Cabinet a Chadeirydd y Rhanbarth Gwella Busnes yn darparu mewnbwn.

Rhoddodd Rheolwr Canol y Ddinas grynodeb cynhwysfawr o'r ddogfen, y weledigaeth 8 pwynt a gynigiwyd a'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynigion Efydd, Arian ac Aur.

Roedd materion allweddol a gododd o'r trafodaethau'n cynnwys y canlynol:

- Cafwyd 80-90% o gefnogaeth ar gyfer y cynigion a gyflwynwyd.
- Cyfanswm cost cyflwyno'r cynllun llawn yw £2.3m.
- Byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno mewn camau dros gyfnod estynedig.
- Roedd amlygu'r buddion posib yn allweddol i ddatblygu'r cynllun.

Manylodd Rheolwr Canol y Ddinas yr amserlenni mewn perthynas â phenderfyniad y Cabinet a cheisiwyd sylwadau gan aelodau'r Cabinet.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr Canol y Ddinas am ei chyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** cylchredeg Astudiaeth Dichonoldeb ddrafft Stryd y Gwynt i aelodau'r Cabinet, yn gofyn am gyflwyno unrhyw sylwadau i Reolwr Canol y Ddinas erbyn dydd Gwener 4 Ionawr 2019 fan bellaf.

## 43 Strategaeth Trafnidiaeth

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Lleoedd at ddiweddariad swyddog blaenorol mewn perthynas â'r ymagwedd ranbarthol at drafnidiaeth a sut mae hyn yn cysylltu â'r cynllun trafnidiaeth lleol.

Bu llwyddiant wrth sicrhau grant gwerth £700,000 i gynnal astudiaeth dichonoldeb a chanfod sut olwg fyddai ar strategaeth trafnidiaeth rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu cwmni 'Trafnidiaeth Cymru' sydd â rôl oruchwyliol ar gyfer isadeiledd cludiant yng Nghymru.

Nododd yr aelodau'r adolygiad a gynhaliwyd gan yr Athro Mark Barry mewn perthynas ag amseroedd teithio a gwelliannau i'r isadeiledd rheilffyrdd.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Lleoedd at y Papur Gwyn a baratowyd gan Lywodraeth Cymru sy'n archwilio taliadau consesiynol ac integreiddio â'r rhwydwaith trenau yn rhanbarthol.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a ymatebodd yn briodol iddynt.

**Penderfynwyd** y bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn penodi unigolyn a fydd yn darparu mwy o wybodaeth i'r pwyllgor.

## 44 Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd

Darparodd y Cyfarwyddwr Lleoedd drosolwg o'r adolygiad Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd. Nodwyd y byddai'r adolygiad yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth/dechrau mis Ebrill.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y dylid cynnal gweithdy lle gallai aelodau'r pwyllgor gyfrannu at ddatblygiad y strategaeth honno.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cyfarwyddwr Lleoedd yn ymgysylltu â'r Cadeirydd ynglŷn â'r dyddiadau ar gyfer y gweithdy â siaradwr addas.

## 45 Y diweddaraf am y Fargen Ddinesig

Nododd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod digwyddiad cynnwys busnesau mewn perthynas â'r strategaeth trafnidiaeth wedi'i gynnal ar 6 Rhagfyr 2018 a oedd wedi cynnwys busnesau, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru a bydd cyfarfod pellach yn cael ei mewn perthynas â phroblemau prosiect Abertawe a bydd cyfarfod pellach yn cael ei gynnull er mwyn egluro rhai o'r problemau.

Nodwyd y byddai angen i'r broses gyflymu fel ei bod yn cael ei chwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2019, gyda'r nod y byddai arian y Fargen Ddinesig yn dilyn erbyn diwedd mis Mawrth.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 46 Cynllun Gwaith 2018/2019

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2018-2019.

**Penderfynwyd** nodi'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2018-2019;

| | |
|---|---|
| 17/01/19 | 1. Adborth ar goridor yr afon. |
| 21/02/19 | 1. Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd - Gweithdy.<br>2. Parcio yn y ddinas.<br>3. Ymweliadau safle â Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer. |

Daeth y cyfarfod i ben am 3.37pm

**Cadeirydd**